

## LLYWODRAETH CYMRU

### DEDDF CYMUNEDAU EWROPEAIDD 1972

#### RHEOLIADAU CYNHYRCHION SY'N DOD O ANIFEILIAID (MEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD) (CYMRU) 2007 (FEL Y'U DIWYGIWYD)

#### HYSBYSIAD DIWYGIO AWDURDODIAD MEWNFORIO CYFFREDINOL AR GYFER MEWNFORIO CYNHYRCHION ANIFEILIAID AT DDIBENION YMCHWIL O DRYDYDD GWLEDYDD

Yng nghyswllt yr Awdurdodiad Mewnforio Cyffredinol canlynol:

**IMP/GEN/2010/07** – dyddiedig 2 Mawrth 2010 ar gyfer organau, chwarennau, gwaed neu feinweoedd eraill sydd wedi'u trin â gwres, neu gynhyrchion sy'n dod o'r meinweoedd hyn o garnolion a anwyd ac a fagwyd mewn caethiwed, nad ydynt wedi'u heintio, neu nad ydynt o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio â phathogenau anifeiliaid penodedig, y bwriedir eu defnyddio at ddibenion addysgiadol, gwaith ymchwil ac amgueddfeydd o Awstralia, Canada, Gwlad yr Iâ, Norwy, Seland Newydd, y Swistir ac UDA.

Mae'r Awdurdodiad y cyfeirir ato uchod wedi'i newid fel a ganlyn:

#### **Newidir y cynhyrchion i ddarllen fel a ganlyn:**

**IMP/GEN/2010/07** – dyddiedig 2 Mawrth 2010 ar gyfer organau, chwarennau, gwaed neu feinweoedd eraill sydd wedi'u trin â gwres, neu gynhyrchion sy'n dod o'r meinweoedd hyn o garnolion a anwyd ac a fagwyd mewn caethiwed, nad ydynt wedi'u heintio, neu nad ydynt o dan amheuaeth o fod wedi'u heintio â phathogenau anifeiliaid penodedig, y bwriedir eu defnyddio at ddibenion ymchwil a gwaith diagnostig.

#### **Amod 2, newidir yr ail bwynt bwled i ddarllen fel a ganlyn:**

dogfennau masnachol/cludo yn nodi enw a chyfeiriad y sawl sy'n anfon y llwyth a'r sawl sy'n ei dderbyn, disgrifiad o'r cynnyrch a faint sy'n cael ei anfon, y tarddle, y man anfon a chategori'r defnydd fel y'i diffinnir yn Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009;

#### **Amod 3, newidir yr ail bwynt bwled i ddarllen fel a ganlyn:**

**nid** yw'r cynhyrchion yn deillio o anifeiliaid y gwyddys neu yr amheuir eu bod wedi'u heintio â phathogen sy'n achosi clefyd hysbysadwy y mae anifeiliaid yn dueddol o'i gael yn unol â Gorchymyn Mewnforio Pathogenau Anifeiliaid 1980 (IAPO) neu Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008 (SAPO) neu ddeddfwriaeth iechyd anifeiliaid y wlad sy'n allforio;

#### **Newidir amod 11 i ddarllen fel a ganlyn:**

Ar ôl cwblhau'r profion ac oni bai y'u cedwir at ddibenion cyfeirio neu eu hail-allforio i'r drydedd wlad o lle y daeth y cynhyrchion (gweler Nodyn cyffredinol 7), mae'n rhaid cael gwared ag unrhyw weddillion o'r defnydd ac unrhyw gynhyrchion a ddeilliodd o ddefnyddio'r samplau hynny yn unol â gofynion Atodiad XIV, Pennod III, Adran 1 o Reoliad (UE) Rhif 142/2011.

### **Newidir nodyn cyffredinol 1 i ddarllen fel a ganlyn:**

Nid oes dim yn yr awdurdodiad hwn sy'n darparu eithriad rhag unrhyw waharddiad neu gyfyngiad a orfodir gan unrhyw ddeddfwriaeth arall gan gynnwys: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau a gyflwynwyd yn ei sgil, Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) 1995, Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006, Rheoliadau Awdurdodiadau Marchnata ar gyfer Cynhyrchion Meddyginiaethol Milfeddygol 1994, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, y Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr Ryngwladol, y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl neu gan unrhyw reoliad sy'n disodli neu'n diwygio'r uchod.

### **Newidir y nodiadau cyffredinol i gynnwys:**

#### **9. Diffiniadau**

Samplau ymchwil a diagnostig - fel y'u diffinnir yn Rheoliad (UE) rhif 142/2011 yw sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y bwriedir eu defnyddio at y dibenion canlynol: archwilio yng nghyd-destun gweithgareddau diagnostig neu ddadansoddi ar gyfer hybu cynnydd ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, yng nghyd-destun gweithgareddau addysgol neu ymchwil

10. Os byddwch am fewnforio Eitemau Arddangos neu Samplau Masnach, fel y'u diffinnir yn Rheoliad (UE) Rhif 142/2011, cysylltwch â [AH Chelmsford](#).

11. Bydd unrhyw ddefnydd dilynol o samplau ymchwil a diagnostig at ddibenion heblaw'r rheini y cyfeirir atynt ym mhwynt 38 o Atodiad 1 yn cael ei wahardd.

12. Cyfeirier at [Importer Information Notes](#) (IINs) ar wefan Defra i gael rhagor o wybodaeth.

Dyddiad: 20 Mehefin 2011

Swyddog yn Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru